

CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ar ddydd Mercher 16eg Chwefror 2022 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Cyngor.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs W. Mullen James (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs. J. Butterfield YH, MBE, Mrs. J. Chamberlain-Jones, K.R. Jones, Mrs. D. King, Ms. J. McAlpine, B. Mellor, A.J. Rutherford, and Miss C. Williams.

Hefyd yn bresennol:

Y Cynghorydd B. Jones (arsylwi)

Y Cynghorydd T. Thomas (arsylwi)

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

Ms. H. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

47. CYCHWYN Y CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs. J. Chamberlain-Jones, Ms V. Roberts, Mrs. M. Walker.

48. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ymhellach i gofnod rhif 90 Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 16eg Rhagfyr 2021, nododd yr Aelodau y ceisiadau canlynol a oedd wedi cael ymateb yn ystod yr Egwyl dros yr Wyl gan Glerc y Dref a'r Caderydd ar ôl ymgynhori gyda'r aelodau.

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

Nodyn 2: Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych yn ddiweddar wedi datgan argyfwng yr hinsawdd yn ffurfiol ac felly byddent yn dymuno bod camau'n cael eu cymryd nawr gan ddatblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio i sicrhau bod holl geisiadau mwy ar gyfer datblygiad yn gwneud y defnydd mwyaf o dechnolegau presennol i leihau'r effaith ar yr hinsawdd.

[Ymunodd y Cynghorydd Mrs. Chamberlain Jones â'r cyfarfod o Eitem 48.6 ymlaen ar ôl anawsterau technegol]

ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO	
48.1	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> Marine Holiday Park, Ffordd Cefndy, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Cefndy</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> J. Ball Mrs. P.M. Jones P. Prendergast</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2022/0061</p>

	<p><u>DISGRIFIAD:</u> Adeiladu cyntedd mynediad newydd, ystafell beiriannau a storfa ar ochr ogledd-ddwyreiniol yr adeilad hamdden presennol.</p> <p><u>YMGEISWYR:</u> Marine Holiday Park o'r cyfeiriad uchod</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i></p>
48.2	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 19 Brookdale Road, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Pendyffryn</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs. D.L. King A.J. Rutherford</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2022/0066</p> <p><u>DISGRIFIAD:</u> Adeiladu estyniad to gwastad llawr cyntaf yng nghefn / ar ochr y tŷ annedd</p> <p><u>YMGEISWYR:</u> Andrew a Caroline Harms o'r cyfeiriad uchod</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Gwrthwynebiad</i></p> <p><i>Mae'r Cyngor yn ystyried bod dyluniad yr estyniad arfaethedig yn groes i ofynion Polisi RD 1(i) (vi) y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd, gan nad yw'r dyluniad yn parchu'r safle ac eiddo o gwmpas o ran maint a chymeriad ac y byddai'n ormesol o safbwynt eiddo cyffiniol.</i></p>
48.3	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 3 Parc Esmor, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Plastirion</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> K.R. Jones T. Thomas</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2022/0062</p> <p><u>DISGRIFIAD:</u> Adeiladu estyniad dau lawr ar ochr y tŷ annedd a gwaith cysylltiedig</p> <p><u>YMGEISWYR:</u> Mrs Rebecca Williams o'r cyfeiriad uchod</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i></p>
48.4	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 89 Dyserth Road, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Trelewellyn</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> A.S. Johnson Mrs. W. Mullen-James Ms. V. Roberts</p>

	<p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2022/0090</p> <p><u>DISGRIFIAD:</u> Adeiladu estyniad sengl to ar oleddf ar ochr y tŷ annedd</p> <p><u>YMGEISWYR:</u> Mr a Mrs Simon a Nicola Etery o'r cyfeiriad uchod</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad objection</i></p>
48.5	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 88 Marsh Road, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Cefndy</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> J. Ball Mrs. P.M. Jones P. Prendergast</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2022/0079</p> <p><u>DISGRIFIAD:</u> Gosod to ar oleddf a ffenestri i anecs presennol</p> <p><u>YMGEISWYR:</u> Barbara Walker o'r cyfeiriad uchod</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i></p>
48.6	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 50 Butterton Road, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Foryd</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs. J. Butterfield A.R. James</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2022/0085</p> <p><u>DISGRIFIAD:</u> Tystysgrif datblygiad cyfreithlon ar gyfer defnydd presennol llawr daear fel dau fflat ar wahân a elwir yn Fflat 1 a Fflat 1a</p> <p><u>YMGEISWYR:</u> Mr. Ian McAllister, 12 Parc Avenue, Bae Cinmel.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Gwrthwynebu oherwydd</i> <i>- bod y cais yn mynd yn groes i'r Cynllun Datblygu Lleol.</i> <i>- pryder nad yw'r fflatiau arfaethedig yn bodloni'r gofynion maint lleiaf</i></p>

49. **TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion pellach, datganodd y Cadeirydd bod y cyfarfod ar ben.

Llofnod:

Dyddiad:
.....16.03.2022.....